# CABINET

Cofnodion cyfarfod o’r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 26 Ebrill 2016 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros yr Economi; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant; Huw Jones, Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Cymunedol; Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai; Julian Thompson Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Addysg.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Ray Bartley, Huw Hilditch-Roberts a Martyn Holland

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Economi a Pharth Cyhoeddus (RM) a Chymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW) a Phennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG); Prif Swyddog Cyllid (RW); Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (LJ), a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

## TEYRNGED – Y CYN GYNGHORYDD DAVE THOMAS

Talodd yr Arweinydd deyrnged i’r cyn Gynghorydd Sirol ac Aelod Cabinet Dave Thomas a fu farw dros y penwythnos. Bu Mr. Thomas yn cynrychioli’r Rhyl ar y Cyngor ac yn gweithio’n ddiflino yn ei gymuned. Mynegodd yr Arweinydd gydymdeimlad y Cabinet â’i deulu a safodd aelodau a swyddogion ar eu traed mewn teyrnged ddistaw.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Hugh Irving - Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Llyfrgelloedd
Cynghorydd David Smith - Aelod Arweiniol Tir y Cyhoedd

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 3 MATERION BRYS

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2016 .

***PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2016 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.*

**5 ASESIAD ARIANNOL A CHODI TÂL O DAN DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLES (CYMRU) 2014**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley yr adroddiad ynglŷn â newidiadau gorfodol a dewisol o safbwynt Asesiad Ariannol a Chodi Tâl yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Roedd angen newid polisïau a gweithdrefnau cyngor oherwydd y rheoliadau newydd a'r cod ymarfer o safbwynt asesu ariannol a chodi tâl. Roedd gwaith wedi ei wneud i glustnodi meysydd ar gyfer newid a meysydd a fyddai'n galluogi'r cyngor i godi taliadau ychwanegol er mwyn cynorthwyo i liniaru pwysau cyllidol. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar ddau faes effaith o fewn y ddeddfwriaeth fel a ganlyn -

(1) capio ffioedd ar gyfer gofal tymor byr / seibiant – newidiadau gorfodol i asesiadau cyllidol amhreswyl a chyfraniad wedi'i gapio o £60.00 yr wythnos a fyddai'n golygu colled ariannol o £120,000 y flwyddyn, a
(2) newidiadau yn y Lwfans Byw i'r Anabl (Gofal) a diystyru incwm Lwfans Mynychu - cyfle posib i greu incwm drwy gyflwyno newidiadau dewisol i ddiystyru incwm asesiadau cyllid amhreswyl a allai ddigolledu'r golled mewn incwm o'r newidiadau i'r godi tâl am ofal tymor byr / seibiant.

Mynegodd y Cabinet bryderon ynglŷn â'r pwysau cyllidol sydd wedi ei roi ar awdurdodau lleol sy'n codi o'r newidiadau mandadol i'r broses asesu ariannol yn dilyn rhoi'r Ddeddf ar waith. O safbwynt y newidiadau dewisol arfaethedig i ddigolledu'r lleihad mewn incwm roedd y Cabinet am gael sicrwydd na fyddai pwysau ariannol gormodol yn cael ei roi ar unigolion o ganlyniad. Holwyd cwestiynau hefyd ynghylch ymarferoldeb rhoi'r newidiadau ar waith. Amlygodd y Cynghorydd Huw Jones yr amserlenni tynn oedd yn gysylltiedig gyda'r rheiny yr effeithir arnynt a chefnogodd y Cabinet ei gais bod effaith unrhyw newid yn ddarostyngedig i archwilio.

Ymatebodd y Cynghorydd Bobby Feeley a Phennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol i'r materion a godwyd fel a ganlyn -

- cadarnhawyd bod y newidiadau mandadol wedi dod i rym fel rhan o'r Ddeddf newydd a'u bod y tu hwnt i reolaeth y Cyngor
- rhoddwyd sicrwydd y byddai effeithiau codi tâl dewisol ar unigolyn yn cael eu cadw i'r lleiafswm phosib a chynghorwyd ynglŷn â phrosesau asesu ariannol gynhwysfawr a diogelu er mwyn sicrhau bod gan unigolion ddigon o incwm wrth benderfynu ar lefel unrhyw newid
- cynghorwyd nad oedd unrhyw wybodaeth yn nogfen y Cod Ymarfer (Codi Tâl ac Asesiad Ariannol) ynglŷn ag effaith dileu'r diystyru ar y rheiny sy'n derbyn Taliad Annibyniaeth Bersonol a chytunwyd i edrych ymhellach i'r mater.
- eglurwyd na ddylai fod unrhyw effaith ar y galw am ofal tymor byr / seibiant o ganlyniad i'r newidiadau gan bod defnyddwyr gwasanaeth posib yn ddarostyngedig i broses asesu

- croesawyd y cynnig y dylid archwilio effaith y newidiadau

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

(a) *nodi'r newidiadau mandadol yn y Ddeddf o asesiad ariannol amhreswyl ac uchafswm cyfraniad o £60.00 yr wythnos i unigolion sy'n derbyn gofal seibiant/tymor byr o lai nag 8 wythnos.*

(b) *yn cymeradwyo'r cynnig i gyflwyno'r newid dewisol i Ddiystyriaeth Incwm ar gyfer asesiadau ariannol amhreswyl ym mis Gorffennaf 2016, ar ôl cyfnod o gyfathrebu gyda derbynwyr cyfredol, ac yn*

(c) *argymell bod swyddogion yn mynd ag adroddiad i'r pwyllgor archwilio perthnasol ym mis Medi 2017 er mwyn adolygu effaith y mesurau a nodir yn (a) a (b) uchod.*

## 6 CYFRANOGIAD AELODAU MEWN APELIADAU CYFLOGAETH

Cyflwynodd y Cynghorydd Barbara Smith adroddiad yn ceisio cytundeb y Cabinet i newid y gofyniad bod aelodau yn cymryd rhan mewn apeliadau disgyblu a gwerthuso swyddi. Argymhellwyd y dylid delio gyda'r apeliadau hynny yn unol ag apeliadau eraill a gafodd eu clywed gan naill ai Reolwyr, Penaethiaid Gwasanaeth neu Gyfarwyddwyr fel y bo'n briodol.

Manylodd y Cynghorydd Smith ar y rhesymau y tu ôl i'r argymhelliad oherwydd natur weithredol y broses apelio a chydymffurfedd gyda chod ymarfer ACAS. Mae ymgynghori wedi bod gyda'r Undebau Llafur ac maent yn cytuno gyda'r cynnig. Mae'r mater hefyd wedi ei drafod yn y Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol ac er nad yw'r Undebau Llafur wedi codi unrhyw wrthwynebiad mynegodd rhai cynghorwyr bryder y byddai'r newid yn cael effaith ar gylch gorchwyl eu rôl. Nid oedd unrhyw fwriad i fychanu cyfraniad aelodau, proses weithredol y dylai swyddogion ymgymryd â hi ydyw.

Nododd y Cabinet bod yr Undebau Llafur yn cefnogi'r argymhelliad oedd yn arddangos eu hyder yn y broses heb ymglymiad aelodau. Cadarnhawyd nad oedd gan Undebau Llafur wrthwynebiad yn dilyn sicrwydd y byddai unigolyn perthnasol nad yw'n gysylltiedig Roedd y Cynghorwyr Huw Hilditch-Roberts a Martyn Holland hefyd yn cefnogi'r argymhellion ac yn credu bod y broses apeliadau yn fater rheoli y byddai'n well i swyddogion ei drin. Amlinellodd y Cynghorydd Huw Jones yr angen i ystyried y safonau Iaith Gymraeg newydd wrth wrando ar apeliad a rhoddwyd sicrwydd y byddai'r gwrandawiadau yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg fel bo'n addas. O ganlyniad -

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno -*

(a) *nad oes angen i aelodau gymryd rhan mewn Apeliadau Disgyblu a Gwerthuso Swyddi.*

(b) *bod Apeliadau Disgyblu yn cael eu clywed gan y lefel nesaf o reolwr, rheolwr arall, Pennaeth Gwasanaeth neu Gyfarwyddwr priodol. Lle mae apêl yn*

*erbyn diswyddo, yna byddai dau Bennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr yn cynnull, ac*

(c) *y bydd Apeliadau Gwerthuso Swyddi yn cael eu cadeirio gan Bennaeth Gwasanaeth gydag un cynrychiolydd rheolwyr ac un cynrychiolydd undeb llafur.*

## 7 CYNLLUN DIRPRWYO I SWYDDOGION

Cyflwynodd y Cynghorydd Barbara Smith adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion mewn perthynas ag unrhyw swyddogaethau gweithredol a gynhwysir ynddo. (Byddai'r cynllun newydd hefyd yn cael ei gynnwys mewn adroddiad ar y Cyfansoddiad newydd i'r Cyngor llawn ym mis Gorffennaf 2016 er mwyn cymeradwyo'r swyddogaethau anweithredol.)

Mae'r cynllun wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth, strwythur uwch reolwyr y Cyngor a'r newydd sydd wedi digwydd mewn cyfrifoldebau o ganlyniad. Mae'r adrannau cyntaf yn nodi'r ddarpariaeth gyffredinol a'r dirprwyaethau sy'n gymwys i bob uwch swyddog a swyddogaethau penodol swyddogion priodol. Tynnodd y Cynghorydd Smith sylw hefyd at y darpariaethau ychwanegol canlynol -

- hyd yn oed pe na bai'r cynllun swyddogion yn cyfeirio'n unswydd at bŵer, os oedd y pŵer hwnnw yn 'angenrheidiol neu'n atodol' i'w gwasanaeth yna byddai'n cael ei roi ar waith yn awtomatig
- wrth wneud penderfyniadau rhaid i swyddogion roi sylw i gynaliadwyedd yn gyffredinol a lles cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol.
- mynegi darpariaeth y byddai'n rhaid i swyddogion roi sylw dyledus i'r Iaith Gymraeg a chydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg
- gall y Swyddog Monitro ddiweddaru'r cynllun er mwyn adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth, a rhaid adrodd am newidiadau i'r Cabinet neu'r Cyngor llawn.

Roedd yr Arweinydd o'r farn bod y cynllun yn cynorthwyo i gyflymu'r broses gwneud penderfyniadau ac yn darparu peirianwaith tryloyw ynglŷn ag aelodau o fewn y broses gwneud penderfyniadau fel bo'n addas. Nodwyd nad oedd y cynllun yn cynnwys unrhyw ddirprwyaethau newydd ond yn adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth a'r ffaith bod uwch swyddogion wedi eu hail-strwythuro diweddar. Roedd y Cabinet yn falch o nodi'r cyfeiriadau at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a safonau'r Iaith Gymraeg o fewn y ddogfen.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts at y penderfyniad dirprwyedig diweddar gan swyddogion i gynyddu ffioedd parcio ceir a chwestiynodd y peirianwaith ar gyfer ymgynghori gydag aelodau a'r darpariaethau galw i mewn yn y broses honno. Amlygodd swyddogion y peirianwaith sydd yn ei le er mwyn i aelodau ymwneud â'r broses gwneud penderfyniadau, a thynnwyd sylw at Adran 2 y cynllun sy'n gosod rhagdybiaeth o blaid cyfeirio'r mater at aelodau lle'r fo'r penderfyniad yn debygol o gael effaith sylweddol ar broffil y cyngor, yn debygol o atynnu sylw anffafriol yn y cyfryngau newyddion neu o achosi goblygiadau ariannol sylweddol. Roedd y broses wedi ei dilyn ac roedd barn aelodau wedi ei gasglu cyn penderfynu ar ffioedd parcio ceir. Roedd proses hefyd i herio penderfyniadau wedi

eu dirprwyo ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i gyflwyno proses debyg ar gyfer penderfyniadau swyddogion wedi'i dirprwyo yn unol â'r rheiny a wneir gan Aelodau Arweiniol er mwyn rhoi gwybod i aelodau am benderfyniadau pwysig oedd angen eu gwneud o flaen llaw. Cafwyd trafodaeth wedyn oedd yn canolbwyntio ar y broses ddiweddar a'r deilliannau wrth benderfynu ar ffioedd parcio ceir o safbwynt aelodau a swyddogion a phe gallai meysydd penodol gael eu cryfhau. Amlygodd aelodau'r ffaith bod rhoi gwybod iddynt mewn da bryd am benderfyniadau lefel uchel a wneir gan swyddogion o dan bwerau a ddirprwywyd yn ystyriaeth bwysig gyda phroses galw i fewn gliriach. Awgrymwyd hefyd y gellid gwneud mwy er mwyn cynnwys aelodau yn gynt cyn hyrwyddo gwybodaeth ddadleuol/proffil uchel sy'n codi o'r penderfyniadau hynny.

Roedd y Prif Weithredwr yn awyddus i sicrhau bod gan aelodau hyder yn y cynllun dirprwyo swyddogion a nodwyd y byddai'r cynllun yn cael ei gynnwys mewn adroddiad i'r Cyngor llawn ym mis Gorffennaf, ac y byddai hynny'n rhoi cyfle i'r holl aelodau ei adolygu. Awgrymwyd hefyd bod y cynllun yn cael ei gylchredeg cyn cyfarfod y Cyngor yn llawn i gynghori aelodau o'r peirianwaith os hoffent gynnig unrhyw ddiwygiadau fyddai'n ymwneud ag atgyfeirio i'r Grŵp Adolygu Cyfansoddiad yn y lle cyntaf.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r Cynllun Dirprwyo Swyddogion (yn amgaeedig fel Atodiad i'r adroddiad) mewn perthynas ag unrhyw swyddogaethau gweithredol sydd wedi'u cynnwys ynddo.*

## 8 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni. Rhoddodd y crynodeb canlynol o sefyllfa ariannol y Cyngor-

- rhagwelwyd tanwariant net o £1.276 miliwn ar gyfer cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- roedd 91% o'r arbedion a gytunwyd wedi'u cyflawni hyd yn hyn (targed o £7.3m) ac amcangyfrifir y byddai mwyafrif yr arbedion sy'n weddill yn cael eu cyflawni erbyn 2016/17 fan bellaf
- amlygwyd bod y prif amrywiadau oddi wrth dargedau cyllideb neu arbedion yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol, a
- diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys elfen y Cynllun Corfforaethol).

Holwyd i'r Cabinet hefyd i gymeradwyo mewn egwyddor y defnydd o danwariant gwasanaeth a gynigir gan y Penaethiaid Gwasanaethau ac i argymell yr achos busnes sy'n ymwneud â chynlluniau ysgolion Glasdir ac Ysgol Carreg Emlyn i'r Cyngor llawn i'w cymeradwyo.

Cafodd y materion canlynol eu trafod yn ystod y drafodaeth -

- Roedd y Cynghorydd Huw Jones yn falch o nodi'r argymhelliad i gymeradwyo ceisiadau i gario tanwariant ymlaen yn y Gwasanaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden a fyddai'n galluogi rhedeg prosiectau yn ystod y flwyddyn ariannol

nesaf. Wrth ganmol prosiectau gwella'r ysgol manteisiodd ar y cyfle i amlygu'r pwysau ariannol canlynol ar ganolfannau hamdden penodol drwy golli incwm tra roedd y gwaith hwn yn cael ei wneud.

- Roedd y Cynghorydd Eryl Williams yn falch o allu cadarnhau bod yr holl brosiectau o dan y Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ac yn dod yn eu blaenau'n dda. Adroddodd am y gwaith caled a'r gwaith paratoi a wnaed wrth arwain amrywiol brosiectau, ac na fydd rhai ohonynt yn cael eu cwblhau yn ystod y tymor cyngor presennol, a chefnogodd y Cabinet y cynigion y byddai cynghorwyr a'r aelodau oedd yn ymwneud â'r cynlluniau hynny, a phrosiectau cyfalaf sylweddol eraill, yn cael eu gwahodd i seremonïau agor y prosiectau hynny p'un ai eu bod yn dychwelyd wedi etholiadau Mai 2017 ai peidio.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Bobby Feeley at gynllunio ariannol a phwysau o fewn y Gwasanaeth Oedolion a Gofal Cymdeithasol yn y dyfodol a chynghorodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill bod rhagolygon yn cael eu hymgorffori i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac y byddent yn cael eu trafod ymhellach yn y dyfodol fel rhan o'r broses gyllido.
- Adroddodd yr Arweinydd ar y sail resymegol y tu ôl i beth o'r tanwariant yn y Gwasanaeth Datblygu Economaidd a Busnes gan gynghori bod y cynnydd yn dibynnu i raddau helaeth ar ddylanwadau allanol y tu hwnt i reolaeth y Cyngor.
- Cadarnhaodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill taw'r swm ychwanegol yr oedd angen i'r Cyngor ei dalu er mwyn gwasanaethu ei rwymedigaethau o safbwynt yr hen *Mutual Municipial Insurance Company* oedd tua £262,000 a fyddai'n cael ei gyllido o'r gronfa Yswiriant wrth gefn
- mewn ymateb i gwestiynau eglurodd y Prif Swyddog Cyllid y cyfyngiadau ar gyllid y Cyfrif Refeniw Tai a sut roedd elfennau wedi eu defnyddio i symud staff tai o Brighton Road, Y Rhyl, i Galedfryn, Dinbych ac yn galluogi trefniadau gweithio mwy hyblyg fel rhan o'r prosiect gofod swyddfa.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2015/16 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb;*

*(b) cymeradwyo mewn egwyddor y defnydd o danwariant gwasanaeth a gynigir gan y Penaethiaid Gwasanaeth, yn amodol ar y sefyllfa Alldro Terfynol (a grynhoir yn Atodiad 5 i'r adroddiad);*

*(c) cymeradwyo'r achosion busnes sy'n ymwneud ag Ysgolion yr 21ain Ganrif i'w hargymell i'r Cyngor Llawn fel a ganlyn -*

- *cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol a Llawn ar y cyd ar gyfer datblygiad Ysgolion Glasdir, a*
- *chymeradwyo'r Achos Cyfiawnhau Busnes ar gyfer Ysgol Carreg Emlyn, a*

*(d) bod unrhyw gynghorwyr a swyddogion presennol sydd wedi bod yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu prosiectau cyfalaf sylweddol yn cael eu gwahodd i'r seremonïau agoriadol mewn perthynas â'r prosiectau hynny hyd*

*yn oed os nad yw'r cynghorwyr hynny wedi dychwelyd ar ôl etholiadau mis Mai 2017.*

## 9 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET

Cyflwynwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau'r canlynol -

- roedd adroddiad cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych wedi ei ohirio a byddai'n cael ei ail-gynllunio unwaith byddai mwy o eglurder ynghylch amserlenni
- roedd y Fframwaith Contractwr Cynnal a Chadw Ymatebol wedi ei aildrefnu o fis Mai i fis Mehefin.
- byddai'r adroddiad Alldro Refeniw Terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Mehefin.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30 a.m.